Uwchraddio'r Grid

Cyswllt Gorllewinol 2

# Strategaeth ymgynghoriad Cam 1

Mehefin 2026



nationalgrid

# Cynnwys

**4 Cyflwyniad**
**5 National Grid Electricity Transmission – yr hyn rydym yn ei wneud yn y DU**
**6 Prosiect Cyswllt Gorllewinol 2**
6 Cefndir ac angen
7 Y prosiect
**8 Diben ymgynghoriad Cam 1**
8 Amseriad yr ymgynghoriad
**9 Ardal ymgynghori**
**11 Dull o ymgynghori**
11 Y Gymraeg
11 Hygyrch i bawb
**12 Mannau gwybodaeth lleol**
**14 Deunyddiau'r ymgynghoriad**
**15 Cyfarfodydd a sesiynau briffio i randdeiliaid**
**16 Gwefan y prosiect**
**17 Map rhyngweithiol**
**17 Ap Grid Engage**
**18 Digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd a gweminarau**
**20 Llinell wybodaeth**
**20 Rhoi adborth ar ein cynigion**
**21 Hysbysebu**
21 Cyfryngau traddodiadol
21 Cyfryngau digidol
21 Cyfryngau cymdeithasol
**22 Ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant**
23 Adnodd cyfathrebu ar gyfer grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant
24 Cronfa ddata o fanylion cyswllt grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant
**24 Ffyrdd o ymateb i'r ymgynghoriad**
**25 Adrodd am yr ymgynghoriad**
**25 Ymgynghoriad pellach**
**27 Prosiectau eraill National Grid**
**28 Manylion cyswllt y prosiect**
**30 Atodiad A**
**32 Atodiad B**
**33 Atodiad C**

# Prosiect: Cyswllt Gorllewinol 2

**Mae National Grid Electricity Transmission (y cyfeirir ato fel National Grid) yn gweithio gyda Scottish Power Energy Networks (SP Energy Networks) i gyflawni ein cynigion ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2, sef cysylltiad Cerrynt Uniongyrchol Foltedd Uchel (HVDC) newydd alltraeth a fydd yn cludo trydan i, ac o Gymru a'r Alban. Byddai Cyswllt Gorllewinol 2 yn atgyfnerthu'r rhwydwaith trawsyrru, gan gludo trydan i, ac o, Gymru a'r Alban. Gyda'r hyblygrwydd hwn, byddem yn cryfhau diogelwch ffynonellau ynni yn y DU, yn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol, ac yn helpu i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw wrth i'r system ynni newid.**

## Geirfa

- **Ceblau cerrynt uniongyrchol foltedd uchel (HVDC)** – gellir defnyddio ceblau HVDC i gludo llawer iawn o bŵer yn bell dros y tir ac ar y môr. Mae'r ceblau hyn yn cael eu gosod o dan y ddaear pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y tir.
- **Ceblau cerrynt eiledol foltedd uchel (HVAC)** – Mae pŵer fel arfer yn cael ei gynhyrchu, ei drawsyrru a'i ddosbarthu gan gerrynt eiledol, sef ffordd effeithlon o gludo ynni i gartrefi a busnesau. Hefyd, mae modd cludo HVAC drwy geblau tanddaearol.
- **Tirfa** – Lleoliad cysylltu'r ceblau HVDC morol â'r ceblau HVDC daearol. Mae'r cysylltiad yn cael ei wneud drwy borth cysylltu trosiannol (TJB) o dan y ddaear.
- **Gorsafoedd trawsnewid** – Trosi pŵer o HVAC i HVDC ac fel arall. Cyfleusterau uwchben y ddaear yw'r gorsafoedd hyn sy'n cynnwys adeiladau a pheiriannau ac offer trydanol allanol.
- **Is-orsafoedd** – Mae'r rhain yn cysylltu'r gorsafoedd trawsnewid â'r rhwydwaith trawsyrru ac, yn y pen draw, â'r rhwydweithiau dosbarthu sy'n cyflenwi cartrefi a busnesau. Maent hefyd yn darparu pwynt cysylltu ar gyfer generaduron ynni sy'n rhoi pŵer i mewn i'r rhwydwaith, ac ar gyfer y cwmnïau dosbarthu sy'n cymryd pŵer o'r rhwydwaith i gyflenwi cartrefi a busnesau. Mae is-orsafoedd yn gyfleusterau uwchben y ddaear hefyd, ac maent yn cynnwys peiriannau ac offer trydanol.



# Cyflwyniad

## Mae’r ddogfen hon yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad Cam 1 ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2026 ar ein cynigion prosiect Cyswllt Gorllewinol 2.

**Mae Cyswllt Gorllewinol 2 yn gyswllt trydan HVDC newydd a fyddai o dan y môr yn bennaf, a byddai’n cludo trydan i, ac o, Gymru a’r Alban. Gyda’r hyblygrwydd hwn, byddai Cyswllt Gorllewinol 2 yn cryfhau diogelwch ffynonellau ynni yn y DU ac yn helpu i gydbwyso’r cyflenwad a’r galw wrth i’r system ynni newid.**

Bydd cynnwys cymunedau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yn gynnar yn ein helpu i ddod o hyd i wybodaeth werthfawr am effeithiau posibl y prosiect ac yn helpu i siapio ei ddatblygiad.

Mae’n sicrhau hefyd bod modd ystyried mesurau lliniaru posibl, a lle bo’n briodol, eu cynnwys yn ein dyluniadau cyn i gais am ganiatâd gael ei gyflwyno.

Rydym wedi ymgynghori â’r awdurdod cynllunio lleol yng Nghyngor Gwynedd ynghylch ein rhesymeg a’n dull gweithredu o ran yr ymgynghoriad Cam 1 hwn. Mae’r ddogfen hon yn nodi sut y byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid yn ystod ein hymgynghoriad Cam 1.

# National Grid Electricity Transmission – yr hyn rydym yn ei wneud yn y DU

**National Grid sy'n dal y drwydded trawsyrru ar gyfer Cymru a Lloegr o dan Ddeddf Trydan 1989 ("y Ddeddf Trydan"). National Grid sy'n adeiladu, yn cynnal, ac yn berchen ar y system trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr – y llinellau uwchben, y ceblau o dan y ddaear, yr is-orsafoedd a'r gorsafoedd trawsnewid sy'n cludo pŵer o amgylch y wlad.**

nationalgrid

Yn y DU

**Trosglwyddiad Trydan y Grid Cenedlaethol**

**Seilwaith Strategol y Grid Cenedlaethol**

**Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol**

**Mentrau'r Grid Cenedlaethol**



Trosglwyddiad Trydan y Grid Cenedlaethol: Yn berchen ar y system trosglwyddo trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr, ac yn ei rheoli.

Seilwaith Strategol y Grid Cenedlaethol: Yn darparu prosiectau trosglwyddo trydan strategol sylweddol y DU, sy'n canolbwyntio ar gysylltu Cymru a Lloegr â mwy o bŵer glân, carbon isel.

Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol: Yn berchen ar y rhwydweithiau dosbarthu trydan ar gyfer De Cymru, a Chanolbarth a De-orllewin Lloegr, ac yn eu gweithredu.

Mentrau'r Grid Cenedlaethol: Yn gweithredu a buddsoddi mewn partneriaethau, technolegau a phrosiectau ynni ar raddfa fawr er mwyn helpu i gyflymu'r broses o drosglwyddo i ynni glân. Mae'r mentrau yn rhedeg ar wahân i weithrediadau rheoledig craidd y Grid Cenedlaethol.

# Prosiect Cyswllt Gorllewinol 2

## Cefndir ac angen

**Mae'r ffordd rydym yn cynhyrchu trydan wedi newid, ac mae'n parhau i newid. Disgwylir i'r galw am drydan ddyblu erbyn 2050 wrth i'r ffordd rydym yn pweru ein cartrefi, ein busnesau, ein diwydiant a'n trafnidiaeth newid. Mae angen i ni uwchraddio'r grid yn sylweddol nawr i sicrhau ein bod yn gallu diwallu'r cynnydd hwn o ran galw.**

Er mwyn darparu pŵer sy'n fwy diogel a glân i gartrefi a busnesau a gwella ein diogelwch ynni, mae'n rhaid i ni uwchraddio'r system trawsyrru trydan – 'y grid' – ar raddfa a chyflymder nas gwelwyd o'r blaen.

Cynllun Uwchraddio'r Grid yw'r trawsnewidiad mwyaf o'r grid trydan ers cenedlaethau.

Mae ein prosiectau seilwaith ledled Cymru a Lloegr yn helpu i gysylltu ynni glanach o ffynonellau lleol, mwy fforddiadwy, â'ch cartrefi a'ch busnesau.

Mae newid i ffynonellau ynni diogel, glanach a mwy fforddiadwy yn golygu bod angen i ni adeiladu seilwaith newydd, yn ogystal ag uwchraddio'r grid presennol, i symud y pŵer o'r man lle caiff ei gynhyrchu i'r cartrefi a'r busnesau lle mae ei angen.

Byddai Cyswllt Gorllewinol 2 yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o Uwchraddio'r Grid.





# Y Prosiect

**Mae Cyswllt Gorllewinol 2 yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan National Grid a Scottish Power Energy Networks (SP Energy Networks), gyda'r ddau'n gyfrifol am wahanol elfennau o'r prosiect.**

Mae National Grid yn gyfrifol am ddatblygu'r cebl HVDC yn nyfroedd Cymru yn ogystal â seilwaith newydd yng Ngogledd Cymru. Mae National Grid a SP Energy Networks hefyd yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu'r cebl HVDC yn nyfroedd Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw, rhwng Cymru a'r Alban. Mae ymgynghori a ymgysylltu ynglŷn â'r cebl alltraeth o fewn dyfroedd Manaw a Gogledd Iwerddon yn broses ar wahân.

Mae cynigion ar y tir National Grid yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- porth cysylltu trosiannol newydd o dan y ddaear yn lleoliad tirfa arfordir Gwynedd ym Mae Caernarfon lle bydd y cebl HVDC morol newydd yn cysylltu â'r cebl HVDC newydd ar y tir
- cebl HVDC newydd tua 25km o hyd o dan y ddaear o leoliad y tirfa i orsaf drawsnewid newydd
- gorsaf drawsnewid newydd yn agos at yr is-orsaf bresennol ym Mhentir, Gwynedd
- estyniad newydd i is-orsaf bresennol Pentir, at ddibenion cysylltu Cyswllt Gorllewinol 2 â'r rhwydwaith trawsyrru presennol yng Nghymru
- cebl Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel (HVAC) newydd byr o dan y ddaear rhwng yr orsaf drawsnewid newydd ac estyniad is-orsaf Pentir.

Mae cynigion morol y glannau National Grid yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Tua 183km o gebl HVDC morol newydd, sy'n dechrau o derfyn moroedd tiriogaethol Cymru i borth cysylltu trosiannol newydd o dan y ddaear yn lleoliad tirfa arfordir Gwynedd, ym Mae Caernarfon.

Mae Cynigion Morol oddi ar yr arfordir ehangach National Grid yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- tua 240km o gebl HVDC morol newydd, sy'n dechrau o derfyn deheuol moroedd tiriogaethol yr Alban ac yn symud ymhellach i'r de drwy foroedd tiriogaethol Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw, nes iddo gyrraedd tirfa yng Nghymru.

Yn yr ymgynghoriad yma rydym yn gofyn am farn ar elfennau Cymreig o'r prosiect yn unig. Mae SP Energy Networks yn gyfrifol am y rhan Albanaidd, ac roedd y llwybr arfaethedig a nodwyd ganddynt yn rhan o ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2025.

# Diben ymgynghoriad Cam 1

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid yn ystod camau cynnar y prosiect, gan rhoi cyfle i bobl, ei gynrychiolwyr, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allweddol roi adborth a gwybodaeth am effeithiau posibl y prosiect cyn i waith dylunio manylach gael ei wneud.**

Mae cynnwys pobl yn gynnar yn sicrhau hefyd bod modd ystyried mesurau lliniaru posibl, a lle bo'n briodol, eu cynnwys yn ein dyluniadau cyn i gais am ganiatâd gael ei gyflwyno.

Pwrpas yr ymgynghoriad yw casglu adborth gan gymunedau lleol a rhanddeiliaid, ateb cwestiynau, a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i wneud sylwadau am y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma.

Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn:

- cyflwyno ein cynigion cynnar
- esbonio gwahanol elfennau'r prosiect – coridor llwybr arfaethedig y ceblau ar y môr, lleoliadau'r tirfeydd, coridorau llwybr y ceblau ar y tir, parthau lleoli gorsafoedd trawsnewid, ac estyniad is-orsaf bresennol Pentir
- egluro pam fod angen y prosiect hwn
- rhoi gwybod am ein hegwyddorion dylunio a gofyn am adborth perthnasol
- esbonio'r opsiynau a'r dewisiadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer lleoliad tirfa'r cebl, coridor llwybr y ceblau, a safle'r orsaf drawsnewid rydym yn ei ystyried ar hyn o bryd
- amlinellu'r camau nesaf, gan gynnwys sut rydym yn bwriadu datblygu cynigion ein prosiect ymhellach.

Mae rhagor o fanylion am ein cynigion ar gael ar ein gwefan, nationalgrid.com/westernlink2 neu yn ein dogfen ymgynghoriad Cam 1.

## Amseriad yr ymgynghoriad

**Bydd yr ymgynghoriad Cam 1 hwn yn para am bedair wythnos o ddydd Mawrth 23 Mehefin tan ddydd Mawrth 21 Gorffennaf 2026.**

# Ardal ymgynghori

## Rydym wedi datblygu Prif Ardal Ymgynghori (PCZ) ac Ardal Ymgynghori Eilaidd (SCZ) ar gyfer y prosiect er mwyn cyfrannu at ein gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r rhain yn Atodiad A.

**Bydd Prif Ardal Ymgynghori'r prosiect yn cynnwys pobl sydd â'u heiddo o fewn 250 metr i leoliadau'r coridor a'r tirfeydd a ffefrir, ac 1km o fannau lleoli gorsafoedd trawsnewid ac estyniad is-orsaf bresennol Pentir.**

Lle bo'n briodol, mae'r Brif Ardal Ymgynghori wedi cael ei hymestyn i gynnwys strydoedd a chodau post cyfan yn hytrach na'r ffin sy'n rhannu pentrefi bach neu gymdogaethau. Mae hefyd yn dilyn ffiniau naturiol megis ffyrdd neu derfynau caeau fel y bo'n briodol. Byddwn yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol yn yr ardal hon, gan gynnwys cysylltu'n uniongyrchol â phob cyfeiriad preswyl a busnes.

Cyn dechrau'r ymgynghoriad byddwn yn anfon cylchlythyr drwy'r post at bob eiddo o fewn y Brif Ardal Ymgynghori.

Bydd y cylchlythyr yn cynnwys:

- cyflwyniad i'r prosiect ac eglurhad o'r hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch
- manylion gwefan y prosiect, dyddiadau ac amseroedd arddangosfeydd cyhoeddus, gweminarau a sut gall rhanddeiliaid roi adborth ar ein cynigion, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r ffurflen adborth ar-lein a fydd ar gael ar wefan y prosiect
- gwybodaeth am ragor o ddeunyddiau'r prosiect a ble y gellir dod o hyd iddynt
- map sy'n dangos coridor y llwybr a ffefrir a pharth gosod yr orsaf drawsnewid
- amserlen ddangosol y prosiect.

Byddwn yn cynnwys manylion am sut y gall pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd weld copïau papur o'r deunyddiau a manylion cyswllt y prosiect er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Bydd yr Ardal Ymgynghori Eilaidd (gweler atodiad A) yn ymestyn i 5km o ymyl y coridor a'r ardal raddedig a ffefrir, ardal leoli'r orsaf drawsnewid, lleoliadau'r tirfeydd, a gwaith cysylltiedig arall. Bydd yr Ardal Ymgynghori Eilaidd yn cynnwys rhanddeiliaid sydd ymhellach i ffwrdd o'r prosiect ond a allai fod â phryderon megis traffig adeiladu a golygfeydd o bell o'r orsaf drawsnewid. Gall unrhyw un gofrestru ar y wefan i gael y newyddion diweddaraf am y prosiect.

Byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch y prosiect a'r ymgynghoriad cyhoeddus o fewn yr SCZ drwy ddulliau cyhoeddusrwydd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r PCZ.

Bydd hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi hysbysebion mewn papurau newydd lleol sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan
- darparu dogfennau'r prosiect mewn mannau gwybodaeth lleol o fewn yr Ardal Ymgynghori Eilaidd i'r cyhoedd gael eu gweld
- rhoi hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol i dargedu gwahanol ddemograffeg ac i gynnwys y rhai na fyddent fel arall yn ymwneud â'r ymgynghoriad
- cyhoeddi manylion y digwyddiadau ymgynghori ar wefan y prosiect
- rhoi manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau a sut i ofyn am gopïau papur o ddeunyddiau ymgynghori ar wefan y prosiect
- gofyn i gynghorau cymuned arddangos gwybodaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Bydd ceisiadau am gopïau papur o'r dogfennau technegol yn cael eu hadolygu fesul achos. I dalu am gostau argraffu, efallai y bydd tâl copïo rhesymol yn cael ei godi, i'w dalu gan y derbynnydd; bydd hyd at uchafswm o £500 ar gyfer y gyfres gyfan o ddogfennau ymgynghori.

Bydd National Grid hefyd yn ystyried ceisiadau am ddogfennau mewn fformatau gwahanol, megis cyfieithiadau a phrint bras, fesul achos er mwyn ystyried amgylchiadau unigol.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r deunyddiau ymgynghori neu ar gyfer ceisiadau am ddeunyddiau wedi'u hargraffu neu mewn fformatau eraill, gellir cysylltu â thîm y prosiect drwy anfon e-bost at Westernlink2@nationalgrid.com



# Dull o ymgynghori

## Y Gymraeg

**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan yn Gymraeg. Bydd yr holl ddeunyddiau cymunedol annhechnegol ar gael yn Gymraeg a bydd siaradwyr Cymraeg ar gael ym mhob digwyddiad ymgynghori a gweminar.**

Gellir rhoi adborth yn Gymraeg.

At ddibenion dadansoddi ac adrodd ar adborth Cymraeg ochr yn ochr ag ymatebion eraill, bydd adborth Cymraeg yn cael ei gyfieithu gan asiantaeth gyfieithu benodedig y prosiect (sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru).

## Hygyrch i bawb

**Rydym yn cynnig defnyddio cyfuniad o sianeli ymgysylltu digidol a thraddodiadol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio gwefan y prosiect ac offer digidol eraill i gyflwyno gwybodaeth am y prosiect a chasglu adborth ynghylch ein cynigion. Mae hyn yn cynnwys yr ap Grid Engage sydd ar gael i'w lawrlwytho fel ffordd arall o weld gwybodaeth am y prosiect.**

Rydym wedi ymrwymo o hyd i ymgysylltu â holl aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Rydym am sicrhau bod ein holl ymdrechion i ymgysylltu ac ymgynghori yn gynhwysol ac ein bod yn cyrraedd y rhai na fyddent fel arall o bosibl yn ymgysylltu â ni. Gallwch weld ein dull o ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml ar dudalen 22.

Rydym hefyd yn cydnabod efallai na fydd gan rai pobl fynediad neu defnydd o'r rhyngrwyd. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod copïau papur o'n holl ddeunyddiau ar gael ar gais ac mewn lleoliadau penodol ar hyd y llwybr. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys lleoliadau ac oriau agor y mannau gwybodaeth lleol hyn, yn y tabl isod.



# Mannau gwybodaeth lleol

Mae mannau gwybodaeth lleol yn lleoliadau ar hyd llwybr y prosiect lle gall pobl gasglu copïau papur o rai dogfennau, ffurflenni adborth, ynghyd â gweld dogfennau ar-lein.

| Lleoliad | Cyfeiriad | Oriau agor | |
|---|---|---|---|
| **Llyfrgell Bangor** | Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd, LL57 1DT | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda** | Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Ffordd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DP | Dydd Llun<br>Dydd Mawrth a dydd Sadwrn<br>Dydd Mercher<br>Dydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sul | 2–6yp<br>10yb–12yp<br>Ar gau<br>10yb–12yp a 2–5yp<br>2–5yp<br>Ar gau |
| **Byw'n Iach Plas Silyn (Canolfan Hamdden ym Mhen-y-groes)** | Plas Silyn, Ffordd y Sir, Pen-y-groes, Gwynedd, LL54 6HJ | Dydd Llun a dydd Iau<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 9yb–9yh<br>9yb–10yh<br>9yb–7yh<br>9yb–3yp |
| **Byw'n Iach Plas Ffrancon** | Ffordd Newydd, Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 7:30yb–9yh<br>7:30yb–8yh<br>9:30yb–3yp<br>10yb–4yp |
| **Llyfrgell Caernarfon** | Lôn Pafiliwn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AS | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Gwaith Llechi Inigo Jones** | Gwaith Llechi Tudor, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7UE | Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 9yb–5yp |
| **Menter Ty'n Llan** | Ty'n Llan, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5SY | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 12yp–11yh<br>10:30yb–11yh<br>12yp–11yh |

*Sylwer: gall oriau agor mannau gwybodaeth lleol newid. Argymhellwn eich bod yn holi'r lleoliad perthnasol i gael yr oriau agor diweddaraf.



# Deunyddiau'r ymgynghoriad

Bydd y deunyddiau canlynol yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori:

| Math o ddeunydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **Dogfen ymgynghoriad Cam 1** | Dogfen annhechnegol sy'n rhoi trosolwg o'r prosiect ac sy'n cynnwys manylion ein cynigion sy'n datblygu a'r cefndir iddynt, ynghyd â gwybodaeth am sut i ddysgu mwy a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad. |
| **Cylchlythyr cymunedol** | Anfonir post uniongyrchol at bob cymuned yn y Prif Ardal Ymgynghori sy'n crynhoi manylion y prosiect a'r ymgynghoriad cyhoeddus. |
| **Strategaeth ymgynghori** | Dogfen sy'n amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer yr ymgynghoriad Cam 1. |
| **Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR)** | Yn esbonio'r opsiynau strategol a ystyriwyd, a'r opsiwn strategol a gynigiwyd, i gyflawni'r uwchraddiad angenrheidiol i'r rhwydwaith. |
| **Astudiaeth Llwybrau a Lleoliadau Coridorau Rhagarweiniol (MCPRSS)** | Dogfen dechnegol sy'n nodi'r broses o nodi, arfarnu a dewis opsiynau ar gyfer elfennau morol y prosiect, gan gynnwys yr opsiynau llwybro a lleoli a aseswyd a'n hopsiwn arfaethedig. |
| **Astudiaeth Llwybrau a Lleoliadau Coridorau Rhagarweiniol (TCPRSS)** | Dogfen dechnegol sy'n nodi'r broses o nodi, arfarnu a dewis opsiynau ar gyfer elfennau daearol y prosiect, gan gynnwys yr opsiynau llwybro a lleoli a aseswyd a'n hopsiwn arfaethedig. |
| **Crynodeb o'r opsiynau tirlanio a llwybro a lleoli daearol** | Dogfen gryno sy'n rhoi trosolwg o'r opsiynau llwybro a lleoli a ystyriwyd. |
| **Nodiadau pontio ar gyfer dogfennau'r MCPRSS a'r TCPRSS** | Yn darparu rhagor o wybodaeth am ddatblygiad yr opsiynau llwybro a lleoli. |
| **Gwefan y prosiect** | Yn cynnwys holl wybodaeth y prosiect, gan gynnwys fersiynau y gellir eu lawrlwytho o'r dogfennau ymgynghori, cwestiynau cyffredin, holiadur adborth ar-lein a map rhyngweithiol. |
| **Map rhyngweithiol** | Map rhyngweithiol sy'n dangos y cynigion ac yn darparu rhagor o fanylion am y prosiect. |

| | |
|---|---|
| **Ffurflen adborth** | I gasglu sylwadau ac adborth ar yr ymgynghoriad. Ar gael ar-lein, mewn digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd, mewn mannau gwybodaeth lleol ac ar gais. |
| **Baneri digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd** | Deunydd arddangos a ddefnyddir mewn digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd, sy'n rhoi trosolwg o agweddau allweddol ar y cynllun. |
| **Mapiau o'n cynigion** | Mapiau sy'n dangos y lleoliadau tirlanio posibl, y coridor a ffefrir sy'n datblygu, y swath graddedig a'r parth lleoli gorsaf drawsnewid. |

*bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori annhechnegol yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Cyfarfodydd a sesiynau briffio i randdeiliaid

Ar ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn cynnig sesiynau briffio i'r rhanddeiliaid canlynol:

- Aelodau Seneddol lle mae'r cyfan neu ran o'r etholaethau o fewn y Brif Ardal Ymgynghori
- Aelodau o'r Senedd lle mae'r cyfan neu ran o'r etholaethau o fewn y Brif Ardal Ymgynghori, a chynrychiolwyr ar gyfer rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr etholedig Cyngor Gwynedd lle mae eu ffiniau etholiadol o fewn y Brif Ardal Ymgynghori
- Cynghorau cymuned a thref lle mae'r cyfan neu ran o'r ardal o fewn y Brif Ardal Ymgynghori.

Bydd y rhanddeiliaid hyn yn cael copïau digidol o wybodaeth y prosiect (darperir copïau papur ar gais) ynghyd â manylion ynghylch sut i ymateb i'r ymgynghoriad ac ymgysylltu â thîm y prosiect. Byddwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt adeg cyrraedd cerrig milltir allweddol y prosiect.

Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau eraill ar gais.

# Gwefan y prosiect

## Byddwn yn diweddaru gwefan y prosiect er mwyn sicrhau fod pobl yn gallu dod o hyd i wybodaeth sy’n berthnasol iddynt.

Bydd y wefan yn galluogi pobl i gael gafael ar wybodaeth a dogfennau yn ogystal â dod o hyd i ddolenni at adnoddau eraill a fydd hefyd ar gael i’w gweld mewn digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus. Bydd yn cynnwys y canlynol:



| Swyddogaeth | Rhesymeg |
|---|---|
| **Llyfrgell dogfennau gyda mynediad at ddogfennau ymgynghori** | Y llyfrgell fydd y lle y byddwn yn cadw’r holl wybodaeth am y prosiect. Bydd hynny’n sicrhau bod holl wybodaeth y prosiect ar gael mewn un lleoliad hwylus. |
| **Tudalennau’r ymgynghoriad** | Bydd y tudalennau hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cynigion ynghyd â dolenni i ddogfennau perthnasol. |
| **Tudalennau sy’n cynnwys rhagor o fanylion** | Manylion dyddiadau ac amseroedd digwyddiadau gwybodaeth i’r cyhoedd a gweminarau yn ystod y cyfnod ymgynghori. |
| **Cwestiynau Cyffredin** | Rhoi atebion i gwestiynau cyffredin. |
| **Manylion cyswllt y prosiect** | Mae manylion rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a rhadbost ar gael ar y wefan ynghyd â’r holl ddeunyddiau ymgynghori er mwyn i’r cyhoedd allu dod i gysylltiad a gofyn am ragor o fanylion neu ofyn cwestiynau. |
| **Ffurflen adborth** | Bydd y ffurflen ar-lein yn galluogi aelodau o’r cyhoedd i roi adborth yn hwylus a’i hanfon yn ôl yn syth at dîm y prosiect. |
| **GDPR (datganiad cyfreithiol)** | Bydd yr holl ddata personol yn cael ei gadw yn unol â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (UE) 2016/679 ac ni fydd data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd nac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ar wahân i’r rhai a amlinellir. Bydd y wefan ar gael i bob defnyddiwr drwy ddarparu canllawiau sain, fideos, deunyddiau gweledol eraill, a’r gallu i ofyn am gyfieithiadau. |

*bydd gwefan y prosiect a’r dogfennau annhechnegol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Map rhyngweithiol

**Bydd map rhyngweithiol dwy iaith o'r cynigion yn cael ei baratoi. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i edrych yn fanwl ar leoliadau penodol gan ddefnyddio swyddogaeth cod post. Bydd cyfeiriadau at ragor o wybodaeth, a allai gynnwys delweddau a/neu destun, neu fe ellir cyfeirio pobl at dudalen wahanol sy'n ymhelaethu ar yr hyn sy'n cael ei gyflwyno.**

---

# Ap Grid Engage

**Bydd gwybodaeth sydd ar gael ar wefan y prosiect hefyd yn cael ei hychwanegu at ap ymgysylltu â'r gymuned National Grid. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y prosiect a manylion ynghylch digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd a gweminarau. Bydd yr ap ar gael i'w lawrlwytho o'r Apple Store neu'r Android Store.**

# Digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd a gweminarau

## Bydd rhaglen o ddigwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd gan gynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb a gweminarau ar-lein yn gyfle i'r gymuned a rhanddeiliaid gael rhagor o wybodaeth am gynigion prosiect Cyswllt Gorllewinol 2 ac i ddarparu adborth.

**Trefnir digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd i fod yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl ac fe'u cynhelir mewn lleoliadau addas.**

Bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle i siarad a gofyn cwestiynau i arbenigwyr technegol yn y tîm.

Bydd digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd wyneb yn wyneb yn dechrau wythnos ar ôl y cyhoeddusrwydd a lansiad ymgynghoriad Cam 1. Byddant yn para sawl wythnos yn ystod y cyfnod ymgynghori fel bod cyfle i bobl wneud trefniadau i fod yn bresennol.

Bydd nifer uwch o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar hyd y coridor a'r ardal raddedig a ffefrir, a bydd digwyddiad ychwanegol yn cael ei gynnal yn agos at ardal lleoli'r orsaf drawsnewid arfaethedig.

Cynhelir y digwyddiadau ar amrywiaeth o ddiwrnodau ac amseroedd, lle bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys gyda'r nosau yn ystod yr wythnos ac o leiaf un penwythnos. Ni fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol nac ar wyliau banc.

Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd yn y lleoliadau canlynol (hefyd ar gael yn Atodiad B):

| Lleoliad | Cyfeiriad | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref Clynnog Fawr**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: chicken.arranges.item* | Llys Eben, Clynnog Fawr, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5AQ | Dydd Iau 25 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Neuadd Goffa Pen-y-groes**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: insist.manly.processes* | 2 Maes y Farchnad, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6NN | Dydd Gwener 26 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Menter Gymunedol Bethel (Y Bedol)**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: elevator.northward.region* | Y Bedol, Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AX | Dydd Iau 9 Gorffennaf, 12–4.30yp |

| | | |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref Rhiwlas**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: ditched.countries.cakewalk* | Rhiwlas, Bangor, Gwynedd, LL57 4GA (dilynwch yr arwyddion i neuadd y pentref) | Dydd Gwener 10 Gorffennaf, 2yp–7yh |
| **Y Ganolfan Bontnewydd**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: match.uptake.stoppage* | Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2UF | Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf, 10yb–1.30yp |

Os bydd manylion unrhyw ddigwyddiad gwybodaeth i'r cyhoedd yn newid oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bydd tîm y prosiect yn defnyddio'r un sianeli cyfathrebu a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr ymgynghoriad er mwyn rhannu unrhyw wybodaeth newydd.

Bydd manylion ynghylch ble a phryd mae'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn cael eu cynnwys ar wefan y prosiect, mewn hysbysebion papur newydd, ac yng nghylchlythyr yr ymgynghoriad.

Bydd gweminarau ar-lein yn cael eu trefnu i alluogi tîm y prosiect i gyflwyno'r un wybodaeth ag sy'n cael ei rhannu yn y digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd.

Bydd un weminar yn cael ei chynnal yn Gymraeg, a'r llall yn Saesneg.

Bydd y rhain yn cael eu recordio a'u llwytho i fyny i wefan y prosiect i'w chwarae'n ôl gan y rhai sy'n methu â bod yn bresennol.

Os bydd angen canslo digwyddiadau am unrhyw reswm, byddwn yn cynnal digwyddiad ar-lein ar y dyddiad a gyhoeddwyd lle bo hynny'n ymarferol.

Rydym yn cynnig y dyddiadau a'r amseroedd canlynol ar gyfer y gweminarau ar-lein:

| | | |
|---|---|---|
| **Gweminar trwy gyfrwng y Gymraeg** | **Dydd Mawrth 7 Gorffennaf** | **6–7yh** |
| **Gweminar trwy gyfrwng y Saesneg** | **Dydd Mawrth 7 Gorffennaf** | **7–8yh** |

Bydd y gweminarau ar-lein hyn yn cael eu trefnu i ategu'r digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb, gan roi'r cyfle gorau i aelodau o'r gymuned a rhanddeiliaid fod yn bresennol. Hefyd bydd modd cofrestru ar gyfer y gweminarau a gwrando ar recordiadau o'r sesiynau ar wefan y prosiect.



# Llinell wybodaeth

**Bydd manylion cyswllt, gan gynnwys llinell wybodaeth rad ac am ddim, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad rhadbost yn cael eu cyhoeddi'n eang, gan gynnwys mewn copïau papur o ddeunyddiau ymgynghori ac ar y wefan. Hefyd, bydd modd i bobl ofyn am ragor o wybodaeth dros y ffôn.**

# Darparu adborth ar ein cynigion

**Rydym yn awyddus i sicrhau ei bod hi mor hawdd â phosibl i'r gymuned leol a'r holl randdeiliaid ddarparu adborth ar ein cynigion. Bydd copïau papur o'r ffurflen adborth ar gael mewn digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd ac mewn mannau gwybodaeth lleol ar hyd coridor y llwybr.**

Bydd ymwelwyr â gwefan y prosiect yn gallu llenwi ffurflen adborth ar-lein a'i hanfon yn ôl yn uniongyrchol neu gellir ei llwytho i lawr a'i hargraffu a'i dychwelyd i'n cyfeiriad rhadbost.

Bydd aelodau o'r cyhoedd hefyd yn gallu ffonio ein rhif rhadffôn a gofyn am gopi papur o'r ffurflen adborth ac amlen radbost. Bydd hynny'n eu galluogi i anfon eu hadborth at dîm y prosiect yn rhad ac am ddim.

Byddwn yn adolygu pob ffurflen adborth a ddychwelir atom. Bydd y sylwadau'n cael eu dadansoddi a'u hystyried wrth i'r prosiect gael ei ddatblygu ymhellach.

Bydd rhaid i adborth cael ei roi yn ysgrifenedig, naill ai drwy e-bost, ffurflen adborth ar-lein, neu ffurflen adborth copi papur.

# Hysbysebu

## Byddwn yn defnyddio hysbysebion i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynigion y prosiect.

## Cyfryngau traddodiadol

Er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r prosiect yn yr ardal a hysbysebu'r rhaglen ymgynghori, byddwn yn gosod hysbysebion dwyieithog mewn cyhoeddiadau lleol allweddol. Bydd yr hysbysebion hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad o fewn y Brif Ardal Ymgynghori a'r Ardal Ymgynghori Eilaidd.

Bydd hysbysebion yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus i roi gwybod i'r gymuned leol a rhanddeiliaid am ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adborth yn ogystal â dyddiadau digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd a gweminarau.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau newyddion lleol, gan gyhoeddi datganiad i'r wasg ar ddechrau'r ymgynghoriad. Byddwn yn ymateb yn adeiladol i unrhyw geisiadau i ennyn diddordeb y cyfryngau drwy gydol yr ymgynghoriad.

## Cyfryngau digidol

Pan fydd gan bapurau newydd lwyfan digidol cysylltiedig, byddwn yn cyhoeddi hysbysebion cyfatebol ar y cyhoeddiadau digidol.

## Cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r ymgynghoriad. Bydd yr hysbysebion yn targedu'r codau post yn y Brif Ardal Ymgynghori a'r Ardal Ymgynghori Eilaidd. Gallai'r hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol ddenu rhanddeiliaid na fyddent fel arall yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad, er enghraifft, pobl ifanc.

Bydd yr hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys defnyddio Facebook ac Instagram.

# Ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant

## Diffinnir grwpiau nas clywir yn aml fel rhai nad oes modd eu cyrraedd drwy ddulliau ymgynghori traddodiadol a chonfensiynol, a hynny am unrhyw reswm.

**Mae National Grid am sicrhau bod ein holl weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori yn gynhwysol ac mae'n dymuno cyrraedd y rhai na fyddent fel arall o bosibl yn ymgysylltu â ni.**

Rydym yn cydnabod efallai na fydd gan rai pobl a grwpiau fynediad, neu defnydd o, y rhyngrwyd, na modd o gael mynediad at ymgynghoriadau traddodiadol yn rhwydd.

Er mwyn sicrhau bod ein hymgynghoriad yn hygyrch i bawb, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cyhoeddi a hysbysebu ein manylion cyswllt yn eang fel bod pobl yn gallu ffonio, anfon e-bost neu ysgrifennu atom i gael cymorth
- postio cylchlythyr yn uniongyrchol at yr holl randdeiliaid yn y Brif Ardal Ymgynghori a rhoi manylion am sut i gael gafael ar gopïau papur o ddogfennau eraill y prosiect, a rhoi adborth drwy'r post
- sefydlu mannau gwybodaeth lleol ar hyd y coridor lle gall pobl gasglu copïau papur o rai dogfennau a ffurflenni adborth
- sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael mewn 'iaith syml' a hynny mewn fformatau digidol a fformatau nad ydynt yn ddigidol er mwyn ei gwneud mor syml â phosibl i bobl ddeall a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad; cyflwynir delweddau, lluniadau a graffeg ategol gyda'r wybodaeth i'w gwneud yn haws i bobl ddeall deunydd technegol
- lle bynnag y bo modd, pan fydd rhywun yn gofyn, ceisio darparu deunyddiau mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys rhai hawdd eu deall, mewn print bras ac mewn ieithoedd gwahanol. I wneud cais am hyn, gofynnwn i ymgyngoreion a/neu randdeiliaid gysylltu â thîm y prosiect
- hysbysebu argaeledd y llinell gymorth.

Gall grwpiau nas clywir yn aml gynnwys y canlynol:

- grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf
- cymuned teithwyr
- yr henoed
- pobl â nam ar eu golwg a'u clyw
- pobl ag anabledd/trafferth symud
- grwpiau oedran ieuenctid
- gofalwyr a theuluoedd sydd â phlant bach
- unigolion sy'n economaidd anweithgar
- unigolion neu gymunedau sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol.
- pobl sydd wedi'u hynysu'n ddigidol.

Bydd grwpiau buddiant yn cynnwys y canlynol:

- grwpiau busnes megis Partneriaethau Menter Lleol a Siambrau Masnach
- grwpiau cymunedol fel cymdeithasau preswylwyr sydd â pherthynas ddaearyddol agos â'r prosiect
- sefydliadau addysgol fel prifysgolion, colegau ac ysgolion ar hyd y coridor a ffefrir.

# Adnodd cyfathrebu ar gyfer grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant:

| Adnodd cyfathrebu | Amcan(ion) | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Ymgysylltu Uniongyrchol** | Ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol, meithrin cysylltiadau â'r prosiect, a helpu i ganfod grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant mewn cymunedau lleol. Gallai'r rhain gynnwys grwpiau cymuned, grwpiau ieuenctid, grwpiau busnes, canolfannau gweithgareddau, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau crefyddol. | Gall National Grid ddefnyddio'r sianeli cyfathrebu sydd gan y grwpiau cymunedol hyn yn barod i gyfathrebu â chynulleidfa ehangach o grwpiau ac unigolion sy'n fwy anodd eu cyrraedd. |
| **Gwefan y prosiect** | Fel hwb ar-lein ar gyfer yr ymgynghoriad sydd â manylion cyswllt hygyrch, mae'n gweithredu fel adnodd cyfathrebu dwyffordd rhwng y prosiect a'r cyhoedd. | Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i unrhyw un sydd â nam ar eu golwg neu glyw gael gafael ar wybodaeth am y prosiect. |
| **Ap Grid Engage** | Ap sy'n cynnwys gwybodaeth am y prosiect a manylion ynghylch digwyddiadau ymgynghori. | Bydd hyn yn golygu bod modd cael gafael ar wybodaeth am y prosiect drwy greu ffordd arall i unigolion gael gwybod y diweddaraf am y cynigion. |
| **Ymgysylltu â llysgenhadon/ hyrwyddwyr (er enghraifft, cynghorau plwyf sydd â'u sianeli cyfathrebu eu hunain)** | Canfod arweinwyr cymunedol a all helpu i hwyluso ymgynghoriad ehangach y tu hwnt i'r sianeli traddodiadol a helpu tîm y prosiect i ganfod problemau a phryderon tebygol gan randdeiliaid a ffyrdd o'u goresgyn. | Derbynnir adborth gan unigolion a chynrychiolwyr grwpiau. |
| **Cyhoeddusrwydd – bydd yr ymgynghoriad yn cael cyhoeddusrwydd drwy'r sianeli canlynol fel y bo'n briodol i'r cynulleidfaoedd targed:**<br>• deunyddiau wedi'u hargraffu<br>• datganiadau i'r wasg<br>• hysbysebion y telir amdanynt<br>• hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol | Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r prosiect gan gynnwys sut i roi adborth a dyddiadau / amseroedd digwyddiadau wyneb yn wyneb a gweminarau ar-lein. | Sicrhau mwy o gyhoeddusrwydd i'r prosiect a helpu i roi gwybod i'r bobl sydd y tu allan i'r Brif Ardal Ymgynghori am yr ymgynghoriad. |
| **Llinell gymorth** | Galluogi aelodau o'r cyhoedd i ofyn cwestiynau am y prosiect a dysgu mwy am yr ymgynghoriad. | Cefnogi'r rhai a allai gael trafferth cael gafael ar wybodaeth ar-lein neu fynd i ddigwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd. |
| **Deunyddiau ar bapur** | Ar gais, darparu copïau papur o ddeunyddiau i'r rhai sy'n methu mynd ar y rhyngrwyd. | Sicrhau cyfranogiad yn yr ymgynghoriad gan y rhai a allai ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth ar-lein neu fynd i ddigwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd. |

## Cronfa ddata o fanylion cyswllt grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau buddiant

**Rydym wedi creu cronfa ddata o gysylltiadau perthnasol mewn grwpiau cymunedol nas clywir yn aml a grwpiau a sefydliadau buddiant eraill.**

Mae'r gronfa ddata hon hefyd yn cynnwys manylion sefydliadau ieuenctid ar draws ardal y prosiect. Byddwn yn parhau i ofyn am farn pobl leol a'u cynrychiolwyr ynghylch argymhellion ar grwpiau neu sefydliadau ychwanegol i'w cynnwys.

Byddwn yn defnyddio'r gronfa ddata hon o fanylion cyswllt i sicrhau bod y grwpiau a'r sefydliadau hyn yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun, a'u bod yn ymwybodol o sut i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect, gan gynnwys pob cam o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro llwyddiant ein hadnoddau cyfathrebu i brofi pa mor addas yw ein dull ymgysylltu.

Gan ddibynnu ar yr ymateb a gawn wrth gyfathrebu â'r grwpiau buddiant hyn, byddwn yn addasu ein dull o ymgysylltu yn unol â hynny.

# Ffyrdd o ymateb i'r ymgynghoriad

**Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gellir cyflwyno adborth fel a ganlyn:**

Ar-lein drwy wefan y prosiect yn nationalgrid.com/westernlink2

Drwy'r post, gallwch lawrlwytho ac argraffu copi o'r ffurflen adborth o'n gwefan a'i dychwelyd i FREEPOST W LINK 2 (nid oes angen stamp na manylion cyfeiriad pellach). Bydd ffurflenni adborth papur hefyd ar gael mewn digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd ac mewn mannau gwybodaeth lleol.

Dros e-bost i Westernlink2@nationalgrid.com

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir drwy unrhyw ddull ar wahân i'r rhai a restrir uchod, megis drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn cael eu cofnodi'n ffurfiol fel rhan o'r ymgynghoriad.

Bydd rhaid i adborth gael ei roi yn ysgrifenedig, naill ai drwy e-bost, ffurflen adborth ar-lein, neu ffurflen adborth copi papur.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir ymatebion a ddarperir ar lafar, megis dros y ffôn, a hynny fesul achos, lle na fydd rhywun yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad fel arall.

Rhaid cyflwyno adborth (ac eithrio drwy'r post) erbyn 23:59 ar ddyddiad cau'r ymgynghoriad.

Derbynnir adborth a anfonir drwy'r post hyd at wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bydd yr holl adborth yn cael ei drin yn unol â'r holl gyfreithiau cymwys sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Bydd rhagor o fanylion am sut y bydd National Grid yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir am ymatebwyr ar gael yn holiadur adborth yr ymgynghoriad ac ar wefan y prosiect yn ystod y cyfnod ymgynghori.

# Adrodd am yr ymgynghoriad

## Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff yr holl adborth ei gasglu, ei adolygu a'i ddadansoddi er mwyn deall y prif themâu a phryderon. Byddwn yn ystyried pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd ein cynigion yn cael eu hadolygu, a lle bo modd, yn cael eu mireinio yng ngoleuni'r adborth.

**Bydd canlyniadau ymgynghoriad Cam 1 ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o ffyrdd.**

I ddechrau, byddwn yn cyhoeddi diweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad a fydd yn rhoi trosolwg o'r prif faterion a godwyd, sut rydym yn eu hystyried, a beth yw'r amserlenni a'r camau nesaf.

Pan fyddwn yn cyflwyno ein cais am ganiatâd, bydd yn cynnwys Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cynnwys ymatebion i'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad Cam 1.

Gellir cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad a detholiadau o ymatebion fel rhan o'r adroddiad oni nodir yn benodol yn yr ymateb na cheir gwneud hynny. Ni fydd unrhyw ymatebion a gyhoeddir yn cynnwys unrhyw fanylion personol.

# Ymgynghoriad pellach

**Bydd adborth o'r ymgynghoriad Cam 1 yn helpu i lunio ein cynigion. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar ein cynigion wedi'u mireinio ar gyfer Cyswllt Gorllewinol 2 yn 2027.**



# Prosiectau eraill National Grid

## Mae National Grid wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer gwaith atgyfnerthu arall ar y rhwydwaith trawsyrru trydan yn yr ardal, gan gynnwys:

- prosiect gosod ceblau newydd rhwng Dinorwig a Phentir
- prosiect atgyfnerthu ac adnewyddu rhwng Pentir a Thrawsfynydd
- estyniad i is-orsaf Bodelwyddan
- prosiect adnewyddu'r llinellau uwchben rhwng Cei Connah a Bodelwyddan
- prosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri
- prosiect is-orsaf Penrhos ar Ynys Môn.

Mae National Grid yn ymwybodol o'r rhyngweithio a'r gorgyffwrdd posibl rhwng prosiectau wrth ddatblygu rhaglenni ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer ei brosiectau yn yr ardal.

Mae hyn yn cynnwys:

- datblygu negeseuon cyson ar draws ei brosiectau rhyngweithiol posibl er mwyn cefnogi dealltwriaeth leol o'r rhyngweithio rhwng y prosiectau hyn;
- cydlynu'r amserlenni ymgynghori i leihau'r effeithiau posibl ar y gymuned leol, gan gynnal tryloywder ynghylch ymgynghoriadau a phrosiectau'r National Grid sydd ar y gweill;
- sicrhau bod staff mewn digwyddiadau ymgynghori yn cael eu goruchwylio a'u bod yn deall prosiectau lleol eraill National Grid sydd ar y gweill; a
- sicrhau bod unrhyw ymatebion a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad sydd wedi'u bwriadu ar gyfer ymgynghoriad arall gan National Grid ar brosiect arall, neu sy'n amlwg yn berthnasol i brosiect arall, yn cael eu trosglwyddo i'r tîm cysylltiadau cymunedol neu ymgynghori â'r prosiect perthnasol.

Fodd bynnag, os oes gan bartïon â diddordeb gwestiynau penodol am brosiectau eraill National Grid, dylent gysylltu'n uniongyrchol â thim(au) prosiect perthnasol i ofyn cwestiynau a/neu roi adborth.

# Manylion cyswllt y prosiect

**Gellir cysylltu â thîm prosiect Cyswllt Gorllewinol 2 gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:**

Ffoniwch ein Llinell Gymorth Gymunedol: 0800 156 0706 (mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb-5.30yp)

Anfonwch e-bost atom: Westernlink2@nationalgrid.com

Ysgrifennwch atom:
FREEPOST W LINK 2
(nid oes angen stamp na manylion cyfeiriad pellach)



# Atodiad A

## Prif Ardal Ymgynghori (PCZ)




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

# Ardal Ymgynghori Eilaidd (SCZ)




Sources: Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri

# Atodiad B

## Digwyddiadau gwybodaeth gyhoeddus:

| Lleoliad | Cyfeiriad | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref Clynnog Fawr**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: chicken.arranges.item* | Llys Eben,<br>Clynnog Fawr,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 5AQ | Dydd Iau 25 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Neuadd Goffa Pen-y-groes**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: insist.manly.processes* | 2 Maes y Farchnad,<br>Pen-y-groes,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL54 6NN | Dydd Gwener 26 Mehefin, 2yp–7yh |
| **Menter Gymunedol Bethel (Y Bedol)**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: elevator.northward.region* | Y Bedol, Bethel,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL55 1AX | Dydd Iau 9 Gorffennaf, 12–4.30yp |
| **Neuadd Bentref Rhiwlas**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: ditched.countries.cakewalk* | Rhiwlas, Bangor,<br>Gwynedd,<br>LL57 4GA<br>(dilynwch yr arwyddion i neuadd y pentref) | Dydd Gwener 10 Gorffennaf, 2yp–7yh |
| **Y Ganolfan Bontnewydd**<br><br>*Lleoliad What 3 Words: match.uptake.stoppage* | Bontnewydd,<br>Caernarfon, Gwynedd,<br>LL55 2UF | Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf, 10yb–1.30yp |

Tabl 1: Digwyddiadau gwybodaeth gyhoeddus

## Gweminarau:

| Enw’r weminar | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Gweminar Gymraeg** | Dydd Mawrth 7 Gorffennaf | 6–7yp |
| **Gweminar Saesneg** | Dydd Mawrth 7 Gorffennaf | 7–8yp |

Tabl 2: Gweminarau

# Atodiad C

## Pwyntiau gwybodaeth lleol:

| Lleoliad | Cyfeiriad | Oriau agor | |
|---|---|---|---|
| **Llyfrgell Bangor** | Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd, LL57 1DT | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda** | Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Ffordd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DP | Dydd Llun<br>Dydd Mawrth a dydd Sadwrn<br>Dydd Mercher<br>Dydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sul | 2–6yp<br>10yb–12yp<br>Ar gau<br>10yb–12yp a 2–5yp<br>2–5yp<br>Ar gau |
| **Byw'n Iach Plas Silyn (Canolfan Hamdden ym Mhen-y-groes)** | Plas Silyn, Ffordd y Sir, Pen-y-groes, Gwynedd, LL54 6HJ | Dydd Llun a dydd Iau<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 9yb–9yh<br>9yb–10yh<br>9yb–7yh<br>9yb–3yp |
| **Byw'n Iach Plas Ffrancon** | Ffordd Newydd, Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 7:30yb–9yh<br>7:30yb–8yh<br>9:30yb–3yp<br>10yb–4yp |
| **Llyfrgell Caernarfon** | Lôn Pafiliwn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AS | Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau<br>Dydd Mercher a dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 9:30yb–6yp<br>9:30yb–5yp<br>9:30yb–1yp<br>Ar gau |
| **Gwaith Llechi Inigo Jones** | Gwaith Llechi Tudor, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7UE | Dydd Llun i ddydd Sadwrn | 9yb–5yp |
| **Menter Ty'n Llan** | Ty'n Llan, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5SY | Dydd Llun i ddydd Iau<br>Dydd Gwener<br>Dydd Sadwrn a dydd Sul | 12yp–11yh<br>10:30yb–11yh<br>12yp–11yh |

*Sylwer: gall oriau agor mannau gwybodaeth lleol newid. Argymhellwn eich bod yn holi'r lleoliad perthnasol i gael yr oriau agor diweddaraf.







## Cysylltwch â ni

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynigion ar gyfer Western Link 2.

**0800 156 0706**
(Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb–5.30yp).
Sylwer nad ydym yn derbyn adborth dros y ffôn.
Llenwch ffurflen adborth neu ysgrifennwch atom.

**Westernlink2@nationalgrid.com**

**FREEPOST W LINK 2**
(nid oes angen stamp na manylion cyfeiriad pellach)